

Grantiau i Brosiectau Cenhadol UBC

Canllawiau sut i wneud cais

Cyflwyniad

Un o amcanion Undeb Bedyddwyr Cymru yw cefnogi cenhadaeth a gweinidogaeth ar draws y Cymanfaoedd ac yn dymuno annog mentrau cenhadol creadigol. Gwahodddwn eglwysi a Chymanfaoedd, sy'n aelodau o'r Undeb, i ymgeisio am Grant Prosiect Cenhadol.

Pa fath o 'brosiectau cenhadol' sy'n gymwys?

Bydd y grant Prosiect Cenhadol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi amrywiaeth o fentrau newydd cenhadol, yn ddibynnol ar eich cyd-destun lleol a'r weledigaeth mae Duw wedi ei roi i chi i rannu Ei gariad yn eich cymuned.

Chi (ynghyd ag eraill) sy'n gallu dirnad orau beth y mae Duw yn eich galw i wneud, yn hytrach na rhywun o'r tu allan i'ch cyd-destun yn dweud wrthy'ch beth sydd angen digwydd. Fe fydd gennych syniad llawer gwell am yr adnoddau sydd ar gael a beth fydd yn gam o ffydd.

Gofynnwn i chi fod yn weddigar: i fod yn ddychmygus; i gael eich ysbrydoli i wneud rhywbeth newydd, a lle fo'n bosib, i feddwl am sut gallwch gyrraedd y llyfudd a'r bobl nad yw'r eglwys yn eu cyrraedd ar hyn o bryd.

Beth sy'n annhebygol o ateb gofynion y Grant Prosiectau Cenhadol?

- Prosiectau adeiladu heblaw bod y cais yn gallu dangos fod prosiect wedi ei diffinio'r glir yn cysylltu'n uniongyrchol â strategaeth genhadol yr eglwys.
- Prosiectau mawr pan na fydd grant yn gallu gwneud gwahaniaeth arwyddocaol heblaw bod ffynonellau incwm mewn partneriaeth â'i gilydd.
- Prosiectau y gallai'r eglwys neu'r Gymanfa eu hariannu eu hunain.
- Prosiectau sy'n bodoli eisoes

Meddwl am genhadaeth

Mae unrhyw fenter genhadol yn dechrau mewn gweddi ynghyd â ffydd i roi cynnig ar rywbeth newydd wedi ei ysbrydoli gan gariad Duw dros Ei bobl. Gall cenhadaeth gael ei fynegi mewn llawer dull a modd. Efallai nad y 'prosiect mawr' y breuddwydiwn amdano yw'r ateb bob tro ond ffydd mewn Duw mawr sy'n gallu newid bywydau.

Dyma un stori am eglwys a ddechreuodd freuddwydio am wneud yr amhosib.

Salem, Tonteg – Y Prosiect Amhosib

Pan ddechreuodd y Parch Rosa Hunt feddwl a gweddio dros ei chymuned leol, bu'n darllen am eglwysi gweddigar yn mabwysiadu 'prosiect amhosib' - sef ceisio gwneud rhywbeth a fyddai tu hwnt i'w gallu a'u hadnoddau eu hunain, y gallai Duw yn unig ei wneud i lwyddo. Wrth i'r eglwys ymroi i weddio am ba fath o brosiect allai hwn fod, bu pwyllgor bach yn cyfarfod i drafod y weledigaeth a dechreuwyd cynnig syniadau. Roedd un thema yn gyffredin i'r holl syniadau - bwyd.

Un syniad a heriodd yr eglwys oedd un am wastraff bwyd. Felly ym Mehefin 2016, fe gofrestrodd yr eglwys â chynllun ailddosbarthu Tesco, a chymryd bwyd a fyddai'n mynd i wastraff i'w rannu â phobl mewn angen. Gyda help rhewgell fawr wedi ei brynu gan Tesco, mae aelodau'r eglwys wedi dilyn cyrsiau hylendid bwyd a bellach yn breuddwydio am ffyrdd i wneud yr amhosib gyda phum prosiect mewn golwg:

- Gardd gymunedol i dyfu llysiau gyda help gan nawdd Co-op;
- Caffi galw heibio iechyd meddwl mewn cydweithrediad â'r syrjerei doctor;
- Partneriaeth â'r W.I. i ddarparu prydau am ddim i blant a theuluoedd;
- Prosiect i ail-ddylunio'r eglwys i'w wneud yn fwy addas i'r gymuned.

Dywed Rosa: *"Mae gennym 70 o aelodau a thua £40,000. Mae cynnal pum prosiect yn amhosib a hurt. Felly rwy'n edrych ymlaen at beth fydd Duw yn gwneud â nhw."*

Cwestiynau am y Grant

A fyddwch chi'n ein helpu i ddatblygu syniadau a ffurfio gweledigaeth?

Byddwn, wrth gwrs. Fe fyddem wrth ein boddau yn eich helpu! Rydym yn barod i gefnogi unrhyw eglwys, grŵp neu Gymanfa a fyddai'n hoffi ystyried beth y mae Duw yn eu galw i'w wneud.

Beth am gynaliadwyedd?

Mae risg wrth ddechrau prosiect sydd wedi ei ariannu gan grant gan fod peryg na fydd y prosiect yn gynaliadwy unwaith i'r arian grant ddod i ben. Mae'r Grant Prosiect Cenhadol yn rhoi cymorth am 3 mlynedd ac felly dylid meddwl ynghylch dyfodol y prosiect a sut i'w gynnal ar ôl y cyfnod hwnnw. Rydym yn cydnabod fod prosiect sy'n 3 mlynedd o hyd yn well na dim prosiect o gwbl.

Faint o arian gallwn wneud cais amdano?

Mae'r Grant Prosiect Cenhadol yn cynnig grant rhwng £1,000 a £3,000 y flwyddyn / hyd at dair blynedd. Dylai eglwysi sy'n chwilio am swm yn llai ystyried gwneud cais i gronfa Genesis yr UBC sy'n rhoi grantiau hyd at £500 i ddarparu adnoddau i fenter genhadol newydd.

Pwy sy'n gallu gwneud cais?

Mae'r cynllun Grant Prosiect Cenhadol i eglwysi neu gymanfaoedd sy'n aelodau o Undeb Bedyddwyr Cymru ac sydd wedi talu'r gyllideb gyfan ers y tair blynedd ddiwethaf. Dylai unrhyw fentrau cenhadol newydd fod â chefnogaeth eu heglwys leol.

Beth am eglwysi na fydd yn teimlo y gallant ymgeisio?

Ni fydd y Grant Prosiect Cenhadol yn addas i bob eglwys, ond efallai y gall eich eglwys gyfranogi o'r hyn mae eraill yn ei wneud drwy roi rhodd i gronfa'r Prosiect Cenhadol. Y mwyaf o gefnogaeth ariannol y rhown i genhadaeth, y mwya' y byddwn yn ei gyflawni gyda'n gilydd.

Pwy â wŷr, wrth helpu prosiect cenhadol arall, gallwn ennill mwy nag y gallwn ei roi?

- Bydd gan ein gweddïau bwyntiau penodol wrth i ni gefnogi ein gilydd mewn gweddi.

- Calondid wrth i ni helpu eraill i wneud yr hyn na fedrwn ni.
- Ein dychymyg yn cael ei danio wrth i ni glywed am storiâu o obaith am waith Duw.

Faint o grantiau sydd ar gael?

Byddem yn hoffi helpu pob eglwys neu grŵp drwy gynnig Grant Prosiect Cenhadol iddynt, ond bydd rhaid siomi rhai, gofyn i eraill aros ac awgrymu bod angen mwy o waith ar syniad cyn ei fod yn barod i gael yr arian sydd ar gael.

Ar hyn o bryd mae cyllideb i'w roi i **dri** Grant Prosiect Cenhadol i ddechrau gyda'r nod o ychwanegu pedwerydd a phumed yn y blynyddoedd dilynol. Efallai bydd modd dyfarnu mwy o grantiau os na fydd cais am y swm llawn o £3,000 yn dod i'r bwrdd.

Pan fydd grant yn dod i ben gellir ystyried ceisiadau newydd.

Nodiadau ychwanegol

- Bydd unrhyw symiau heb eu gwario 9 mis ar ôl eu derbyn yn gorfod cael eu had-dalu (yn amodol ar drafodaeth) fel y gellid defnyddio'r arian at bwrpas arall.
- Dylid cyflwyno adroddiad cynnydd bob blwyddyn y telir y grant.

Sut gallwn ni wneud cais?

Mae ffurflen gais wedi ei amgáu gyda'r canllawiau hyn.

Cyn i chwi wneud cais, fe'ch anogwn yn gyntaf i:

1. Dirnad yn weddigar beth mae Duw eisiau i chi ei wneud
2. Siaradwch a gweddiwch ag eraill i weld a oes cytundeb am y weledigaeth
3. Rhowch eich gobeithion a'r syniadau i lawr ar bapur i eraill eu deall yn glir
4. Mynnwch sgwrs â Simeon neu Menna i drafod a ydych yn barod i wneud cais ffurfiol.

A oes dyddiad cau i geisiadau?

Nac oes, ond dim ond tri Phrosiect Cenhadol y gallwn ddyfarnu grant iddynt yn y flwyddyn gyntaf felly efallai y cedwir ceisiadau tan y bydd cyllid ar gael.

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach.

Parch Simeon Baker, Cyfarwyddwr Cenhadaeth: simeon@ubc.cymru
Dr Menna Machreth Llwyd, Cydlynnydd Cenhadaeth: mennamachreth@ubc.cymru

Undeb Bedyddwyr Cymru, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin. SA31 3EQ
Ffôn: 01267 245600